## PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Mawrth 2014 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, William Cowie, Richard Davies, Stuart Davies, Pat Jones, Barry Mellor, Peter Owen, Arwel Roberts a Cefyn Williams (Cadeirydd)

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ & JT) a Gweinyddwr Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Hugh Irving a Win Mullen-James.

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Dim.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2013 a'r Pwyllgor Trwyddedu Arbennig a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2013.

**Materion yn Codi - 20 Rhagfyr 2013**

Tudalen 16 - Eitem rhif 4 Adolygu Trwydded (Gyrrwr Rhif 046,577) - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd cadarnhaodd y swyddogion bod llythyr o ymddiheuriad wedi cael ei anfon at y teithiwr dan sylw a bod copi wedi'i gyflwyno i'r Adran Drwyddedu.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 Rhagfyr 2013 a 20 Rhagfyr 2013 fel cofnod cywir.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

## 5 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 043844

[Dygwyd yr eitem hon yn ei blaen o fewn trefn y rhaglen gyda chydsyniad y Cadeirydd]

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) ar –

(i) cais a dderbyniwyd gan Ymgeisydd Rhif 043,844 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat yn dilyn adfer ei Drwydded DVLA;

(ii) roedd y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2013 wedi dirymu trwydded yr Ymgeisydd i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat ar ôl iddo gael ei wahardd rhag gyrru am chwe mis o dan y drefn cyfansymio;

(iii) roedd yr Ymgeisydd hefyd cael ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Trwyddedu i adolygu ei drwydded ym mis Rhagfyr 2012 ac Ionawr 2013;

(iv) polisi presennol y Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau, a

(v) gofynnwyd i'r Ymgeisydd fod yn bresennol mewn cyfarfod i gefnogi ei gais ac ymateb i gwestiynau aelodau ar hynny.

Roedd yr Ymgeisydd yn bresennol ac yn dilyn cyflwyniadau cadarnhaodd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor. Crynhodd y Swyddog Trwyddedu (JT) yr adroddiad ac eglurodd bod y mater wedi cael ei ddwyn gerbron y pwyllgor i asesu addasrwydd yr Ymgeisydd i ddal trwydded o gofio ei hanes fel gyrrwr trwyddedig.

Eglurodd yr Ymgeisydd yr amgylchiadau a arweiniodd at ei waharddiad, gan gynnwys ei drosedd foduro olaf ym mis Hydref 2012, ac roedd yn awyddus i dawelu meddwl y pwyllgor nad oedd yn goryrru'n rheolaidd. Ychwanegodd ei fod wedi dysgu gwers galed ac wedi dioddef caledi o ganlyniad i'r gwaharddiad. Roedd yr Ymgeisydd wedi parhau i weithio i'r un cwmni mewn rôl wahanol yn ystod ei gyfnod o waharddiad a dywedodd fod ei gyflogwr a chwsmeriaid yn awyddus iddo ddychwelyd i weithio fel gyrrwr tacsi. Yn olaf, hysbysodd yr Ymgeisydd yr aelodau ei fod wedi mwynhau bod yn yrrwr tacsi ac yn dymuno parhau â'r proffesiwn.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau eglurodd yr Ymgeisydd yr amgylchiadau o gwmpas ei gollfarn goryrru a chyfeiriodd at y defnydd priodol o gyflymder yn yr Adroddiad Asesiad Gyrwyr a gynhyrchwyd ym mis Ionawr 2013 yn dilyn cwblhau'r Cwrs Ymwybyddiaeth Gyrru. Cadarnhaodd hefyd nad oedd ganddo unrhyw gollfarnau moduro arfaethedig.

Yn ei ddatganiad terfynol, cyflwynodd yr Ymgeisydd eirda gan ei gyflogwr yn cadarnhau at ei gymeriad da a gafodd ei ddarllen allan gan y Cadeirydd. Ychwanegodd ei fod wedi bod yn gyrru am bedair blynedd ar hugain ac nad oedd erioed wedi bod mewn damwain, gan bwysleisio ei fod yn yrrwr diogel.

Ar y pwynt hwn torrodd y pwyllgor i ystyried yr achos a -

***PHENDERFYNWYD*** *bod y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan ymgeisydd rhif  041213 yn cael ei roi.*

Dyma oedd y rhesymau am benderfyniad y Pwyllgor Trwyddedu –

Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad yn ofalus a chyflwyniad yr Ymgeisydd o blaid ei gais, gan gynnwys ei eirda.  Wrth benderfynu ar addasrwydd yr Ymgeisydd, roedd y pwyllgor yn derbyn eglurhad yr Ymgeisydd ynglŷn â'i gollfarnau gyrru ac o'r farn ei fod wedi talu'r pris yn y cyswllt hwnnw.  Roedd ei eirda hefyd wedi cyfrannu llawer tuag at gefnogi ei gefnogi; roedd ei gyflogwyr wedi dangos cred ynddo a'i werthfawrogi fel cyflogai ac wedi parhau i'w gyflogi mewn rôl weinyddol drwy gydol ei waharddiad gyrru.  Nodwyd hefyd y byddai caniatáu'r cais yn cydymffurfio â pholisi'r Cyngor mewn perthynas â pherthnasedd collfarnau.  O ganlyniad, mynegodd aelodau hyder yng ngallu'r Ymgeisydd i gludo aelodau o'r cyhoedd yn ddiogel a phenderfynwyd caniatáu'r cais.  Fodd bynnag, cafodd yr Ymgeisydd ei rybuddio y byddai unrhyw gamwedd yn y dyfodol yn cael ei drin yn ddifrifol.

Felly cafodd penderfyniad y pwyllgor a'r rhesymau eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

**SESIWN AGORED**

Ar ôl cwblhau trafod y materion uchod, parhaodd y cyfarfod mewn sesiwn agored.

**6 CAIS I ADNEWYDDU TRWYDDED SEFYDLIAD RHYW**

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu (JT) adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn am benderfyniad yr aelodau am gais i adnewyddu trwydded sefydliad rhyw a dderbyniwyd oddi wrthAdult World mewn perthynas ag eiddo a leolir yn 43 - 47 Queen Street, Y Rhyl.

Cyfeiriodd y Swyddog Trwyddedu at y telerau talu ar gyfer y ffi adnewyddu ac er mwyn eglurder gwnaethpwyd newid i eiriad yr argymhelliad.  Mewn ymateb i gwestiynau cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu y ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwyddedau newydd ac i adnewyddu trwyddedau a dywedodd byddai'r ffioedd hynny yn cael eu hadolygu cyn bo hir.

***PENDERFYNWYD*** *caniatáu'r cais i adnewyddu Trwydded Sefydliad Rhyw mewn perthynas ag eiddo yn 43 - 47 Queen Street, Y Rhyl gyda'r opsiwn o dalu'r ffi adnewyddu o £2,600 mewn deg rhandaliad misol.*

**7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a gylchredwyd eisoes) yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r aelodau ar faterion perthnasol a chyflwyno rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu i'w chymeradwyo.  Roedd y rhaglen waith yn cynnwys adolygiadau o bolisïau trwyddedu ynghyd â chynigion i fabwysiadu polisïau rhanbarthol newydd.

Ymhelaethodd y Swyddog Trwyddedu (NJ) ar feysydd penodol o'r adroddiad a nododd yr aelodau yr ymgynghoriad sydd ar y gweill ar ddau bolisi a ddrafftiwyd gan Banel Technegol Trwyddedu Cymru Gyfan. Teimlai'r Cynghorydd Stuart Davies y dylid ymgynghori gydag aelodau yn y lle cyntaf cyn deiliaid trwyddedau a phartïon eraill sydd â diddordeb.

***PENDERFYNWYD*** *bod yr adroddiad yn cael ei nodi a bod Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Pwyllgor Trwyddedu ar gyfer 2014/15 fel y'i nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.15 a.m.